

Y diweddaraaf am ddatblygu'r cwricwlwm newydd ar gyfer dysgwyr 3-16 oed

Pwrpas

1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraaf i Gyngor Adnewyddu'r Economi ynghylch datblygu Cwricwlwm newydd i Gymru a'r camau nesaf.

Cefndir

2. Mae creu ar y cyd gydag ymarferwyr, a hynny ar sail gwybodaeth gan arbenigwyr a bod yn agored i adolygiadau gan y gymuned arbenigol ryngwladol wedi bod yn nodweddion o'r ffordd rydym wedi mynd ati i ddiwygio addysg. Yn 2016 cafodd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd wahoddiad i adolygu'r gwaith a oedd yn cael ei wneud ar ddiwygio addysg ac i daflu goleuni ar y cynnydd hyd yma. Canfu'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, ers ei ymweliad blaenorol yn 2014, fod cynnydd wedi cael ei wneud mewn nifer o feysydd polisi a bod newid amlwg wedi bod yn ein dull o wella ysgolion. Canfu fod cydweithio agos rhwng llywodraeth a'r sector addysg wedi dod yn nodwedd amlycach yn siwrnai diwygio Cymru, gydag ymrwymiad i wella yn 'amlwg ar bob lefel o'r system addysg'.
3. Ar sail yr adroddiad gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, roeddem wedi cyhoeddi Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl ym mis Medi 2017. Ei ddiben yw datblygu system ysgol a fydd yn rhoi uchelgais i'n dysgwyr i wneud y gorau o'u potensial, gosod y sylfaen ar gyfer oes o ddysgu a chyflawni, a'u harfogi â'r sgiliau iawn ar gyfer byd sy'n newid.
4. Mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd wedi parhau i gefnogi ein gwaith, gan ymwneud â phrosiectau penodol fel 'Ysgolion fel Sefydliad sy'n dysgu' ac, yr hydref yma, cynhaliodd adolygiad pellach o'r cynnydd ar ddiwygio.
5. Ein gweledigaeth ar gyfer Cymru ydy system addysg gwbl gynhwysol lle mae pob dysgwr yn cael yr un mynediad at addysg sy'n diwallu ei anghenion ac yn ei alluogi i gymryd rhan, i fwynhau ac i elwa o ddysgu.
6. Er mwyn galluogi hyn rydym yn datblygu cwricwlwm trawsnewidiol a bydd ysgolion yn gyfrifol am sicrhau bod eu holl ddysgwyr yn cael cwricwlwm eang a chytbwys, sydd wedi cael ei ddylunio i ddiwallu'r pedwar diben er mwyn i blant ac i bobl ifanc ddatblygu i fod yn:
 - dysgwyr uchelgeisiol a galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu bywydau;
 - cyfranwyr mentrus a chreadigol sy'n barod i gymryd rhan lawn mewn bywyd a gwaith
 - dinasyddion moesegol a gwybodus Cymru a'r byd;
 - unigolion iach a hyderus sy'n barod i fyw bywyd boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

7. Wrth gyflawni ein cwricwlwm trawsnewidiol newydd, rydym yn canolbwyntio ar y pedwar amcan allweddol isod sy'n galluogi:
 - Datblygu proffesiwn addysg o ansawdd uchel
 - Arweinwyr ysbrydoledig sy'n cydweithio er mwyn codi safonau
 - Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i ragoriaeth ac i lesiant
 - Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn sy'n cefnogi system o hunanwella
8. Y pedwar diben yma ydy'r man cychwyn ar gyfer pob penderfyniad ar y cynnwys ac ar y profiadau a ddatblygir fel rhan o'r cwricwlwm newydd a'r trefniadau asesu.
9. Mae'r canllawiau cwricwlwm drafft wedi cael eu datblygu drwy greu ar y cyd, dan arweiniad ymarferwyr ac ar sail gwybodaeth gan arbenigwyr. Drwy'r broses hon rydym wedi ymgysylltu ag ystod eang o sefydliadau ac arbenigwyr. Er enghraifft, wrth ddatblygu'r Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg roeddem wedi cynnal dau ddigwyddiad STEM mawr ym mis Mehefin 2018 ac ym mis Chwefror 2019 er mwyn ennyn cyfraniadau gan fusnesau bach, cwmnïau mawr ac arweinwyr yn y diwydiant ac amrywiaeth o bartneriaid eraill. Roedd y digwyddiadau'n gyfle i bawb ymgysylltu'n gynnar a helpu i siapia'r cwricwlwm yn y maes pwysig hwn.
10. Wrth ddatblygu'r cwricwlwm drafft newydd rydym wedi defnyddio gwybodaeth am y farchnad a gwybodaeth gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol am y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar ein pobl ifanc. Mae hyn yn hanfodol os ydym am weld dysgu ar draws ein holl ysgolion sy'n paratoi ein pobl ifanc yn y ffordd orau ar gyfer byd gwaith - ac ar gyfer llwyddo yn eu dyheadau ar gyfer eu gyrfaoedd.
11. Ym mis Ebrill, roeddem wedi cyhoeddi'r canllawiau ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad, y ffordd roeddem yn cynnig asesu dysgwyr a throsolwg ar gyfer adborth.
12. Roedd y ffenestr ar gyfer cyflwyno adborth wedi cau ar 19 Gorffennaf ac mae'r ymatebion wedi cael eu gwerthuso. Cawsom 1,680 o gyfraniadau ar-lein a dros yr e-bost gan amrywiaeth eang o unigolion a sefydliadau. Daeth cyfran sylweddol o'r cyfraniadau hyn gan ymarferwyr, athrawon, uwch arweinwyr a llywodraethwyr. Cafwyd 116 ymateb arall mewn ymateb i'r Arolwg Plant a Phobl Ifanc. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r adborth yn nes ymlaen yn ystod yr hydref.

Cwricwlwm sy'n arfogi dysgwyr ar gyfer rhagor o astudiaethau, hyfforddiant neu gyflogaeth

13. Mae cyflogwyr wedi dweud wrthym fod arnynt eisiau i bobl ifanc fod yn 'barod am waith' pan fyddant yn gadael byd addysg, gyda sgiliau fel creadigrwydd, datrys problemau, gwaith tîm a sgiliau cyfathrebu. Roedd Dyfodol Llwyddiannus, yr adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm ac asesiadau yng Nghymru a arweiniwyd gan yr Athro Graham Donaldson, yn argymhell y dylid dylunio Cwricwlwm newydd Cymru i ddatblygu'r sgiliau ehangach hyn a gwreiddio llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol ar draws y cwricwlwm.

14. Mae'r fframwaith cwricwlwm newydd yn canolbwyntio ar 'ddibenion' addysg – y rhinweddau rydym eisiau eu gweld yn ein pobl ifanc erbyn iddynt fod yn 16 oed. Bwriad y dibenion yw canolbwyntio addysg ar arfogi dysgwyr ar gyfer bywyd, rhagor o astudio a gwaith. Maent wedi cyfrannu at ddyluniad fframwaith y cwricwlwm – er enghraifft, drwy roi pwyslais ar wybodaeth, sgiliau a phrofiad – yn hytrach na rhoi pwyslais ar un ar draul y gweddill. Byddant hefyd yn cyfrannu at ddatblygu cwricwlwm lefel ysgol.
15. Bydd sgiliau ehangach fel gwytnwch, cyfathrebu a datrys problemau yn helpu pobl ifanc i ddefnyddio'r wybodaeth byddant yn ei hennill yn yr ysgol a'i defnyddio mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn.
16. Bydd datblygu dealltwriaeth o fyd gwaith yn dechrau ar oed cynnar. Bydd pob Maes Dysgu a Phrofiad yn nodi sut gall gefnogi dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o yrfaeodd a chyfleoedd gwaith cysylltiedig. Bydd hyn yn cael ei ategu gan ganllawiau ac adnoddau ychwanegol i arfogi ysgolion i gynnig darpariaeth o ansawdd uchel yn y maes yma. Bydd ysgolion hefyd yn cael eu hannog i feithrin rhagor o gysylltiadau yn eu cymuned, gan gynnwys busnesau, er mwyn iddynt allu cynnig profiadau dysgu go iawn yn ardal leol y dysgwyr ac sy'n berthnasol i'w profiadau.
17. Bydd Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Gwaith yn rhan allweddol o bob Maes Dysgu a Phrofiad, lle bydd dysgwyr yn dechrau deall y ffactorau sy'n arwain, yn siapio ac yn dylanwadu ar eu rhagolygon gyrfa a'u datblygiad, a'r sgiliau y bydd eu hangen arnynt er mwyn datblygu a symud eu cynlluniau gyrfa rhagddynt.
18. Bydd Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Gwaith yn y cwricwlwm newydd yn codi ymwybyddiaeth o sgiliau, priodoleddau a diddordebau myfyrwyr unigol a sut mae'r rhain yn effeithio ar ddewisiadau gyrfa, yn codi dyheadau dysgwyr a'u dealltwriaeth o ganlyniadau.
19. Mae ymchwil wedi dangos bod plant mor ifanc â phedair oed yn dechrau datblygu dyheadau gyrfa. Mae profiadau yn y cartref ac yn yr ysgol yn dylanwadu ar y dyheadau hyn dros amser a hynny mewn ffyrdd cadarnhaol a negyddol.
20. Mae'n bwysig darparu ystod eang o wybodaeth am yrfaeodd i blant a hynny drwy amrywiaeth o sianeli, ar bob lefel, er mwyn ehangu gorwelion, herio stereoteipiau a rhoi dealltwriaeth well o fyd gwaith.
21. Mae llythyr cylch gwaith Gyrfa Cymru ar gyfer 2019-20 yn cynnwys gofyniad i gefnogi ysgolion a dysgwyr cynradd, yn ogystal â pharhau i weithio'n uniongyrchol gydag addysgwyr, hyfforddwyr a dysgwyr uwchradd a busnesau. Mae staff arbenigol sydd â chymwysterau rhagorol yn darparu gwasanaeth diduedd.

22. Yn 2014 cyhoeddodd Sefydliad Elusenol Gatsby '*The Good Career Guidance Report*', a oedd yn nodi wyth meincnod a fyddai'n gwella darpariaeth gyrfaoedd.
23. Mae rhaglen beilot dwy flynedd o hyd ar waith yn Rhondda Cynon Taf sy'n ceisio gwreiddio Meincnodau Gatsby yn ysgolion uwchradd prif ffrwd ardal yr awdurdod ac o bosibl creu dull gweithredu cynaliadwy mae modd ei ailadrodd ar gyfer rhoi Meincnodau Gatsby ar waith ar raddfa mewn ardaloedd eraill yng Nghymru.
24. Bydd cymwysterau'n esblygu er mwyn ymateb i'r cwricwlwm newydd, felly bydd Cymwysterau Cymru yn ymgynghori ynghylch cymwysterau'r dyfodol yn nes ymlaen yn ystod yr hydref. Bydd eu hymgynghoriad yn canolbwyntio ar ddiben cymwysterau ar ddiwedd addysg orfodol a chael set o egwyddorion a fydd yn sail i ragor o ymgynghori ynghylch cymwysterau penodol a fydd yn gysylltiedig â phob Maes Dysgu a Phrofiad.

Y camau nesaf

25. Rydym wedi datblygu cynllun cynhwysfawr i arwain gwaith mireinio'r ymarferwyr dros yr hydref. Mae'r cynllun yn cynnwys set glir o amcanion a bydd ymarferwyr yn helpu i ddatblygu ymateb i adborth, a fydd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r fframwaith cwricwlwm wedi'i fireinio ym mis Ionawr 2020.
26. Bydd y Bil Cwricwlwm ac Asesu a fydd yn rhoi'r fframwaith deddfwriaethol a fydd yn sail i'r cwricwlwm, yn cael ei gyflwyno yn 2020.
27. Bydd ysgolion a lleoliadau meithrin nas cynhelir yn gorfod rhoi eu cwricwlwm newydd ar waith o 2022 ymlaen ar gyfer pob dysgwr hyd at flwyddyn 7. Bob blwyddyn ar ôl hynny bydd grŵp blwyddyn arall yn cael ei ychwanegu mewn ysgolion uwchradd, gyda'r cwricwlwm newydd ar waith i bob dysgwr yn 2027.